# PLAY HOUSE



## Mae Playhouse yn ysbrydoli ac yn ymrymuso ysgolion drwy wneud theatr: cysylltu ysgolion â theatrau, sgwenwyr sgriptiau a gwneuthurwyr theatr proffesiynol.

Cyflenwir Playhouse yn genedlaethol drwy hyd a lled gwledydd Prydain, yn gywaith theatr cenedlaethol cyfranogol digymar sy'n cysylltu ysgolion â theatrau, sgwenwyr sgriptiau a gwneuthurwyr theatr proffesiynol fel y gellir eu hysbrydoli a'u hymrymuso i brofi manteision gwneud theatr broffesiynol.

- Mae'n meithrin cysylltiadau cenedlaethol yng ngwledydd Prydain rhwng theatrau ac ysgolion.
- Mae'n llywyddu'r llyfrgell enfawr o sgriptiau ar archeb, wedi'u comisiynu'n arbennig sydd wedi'u bwriadu at oed a maint dosbarthiadau plant.
- Mae'r plant a'r athrawon yn gweithio ochr yn ochr â dramodwyr proffesiynol sy'n sgwennu sgriptiau perthnasol i blant heddiw.
- Mae'n cynnig profiad bywyd cadarnhaol i blant sy'n hirhoedlog ei effaith drawsffurfiol.
- Perfformio eich drama ar lwyfan theatr broffesiynol.

# AR GYFER PWY MAE PLAYHOUSE?

Athrawon ysgol gynradd sydd â diddordeb mewn cyfle dysgu proffesiynol lle gallant ddysgu mwy am sut i gyfarwyddo cynyrchiadau gyda chast mawr o bobl ifanc, ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol y celfyddydau.

Bydd plant 9-11 oed (Blwyddyn 5 a 6) yn cael y cyfle i berfformio drama newydd mewn theatr broffesiynol.

Profiad dosbarth cyfan!
Bydd y ddrama yn cael ei hysgrifennu ar gyfer cast o 20-30.

Mae'r prosiect pwrpasol hwn wedi'i deilwra'n benodol i Faes Dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol o fewn Cwricwlwm i Gymru.

**CLICIWCH YMA I WYLIO FIDEO BYR AM PLAYHOUSE A SUT Y GALL FOD O FUDD I'CH YSGOL...**



# I'r Athrawon...

Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus gynhwysfawr sy'n cyfoethogi ac sy'n cysylltu theatrau â dramodwyr a gwneuthurwyr theatr. Mae'r athrawon yn dysgu technegau ymarfer a chyfarwyddo ac yn datblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnyn nhw i ddod â drama i'r ystafell ddosbarth. Mae'r athrawon yn teimlo wedi'u hymrymuso drwy'r gefnogaeth ymarferol gan dîm Playhouse, sy'n ymroddedig i helpu ysgolion i oresgyn unrhyw rwystrau.

Mae'r athrawon yn cydweithio â dramodwyr proffesiynol wedi'u comisiynu'n arbennig sy'n datblygu sgriptiau sy'n berthnasol ac yn amserol i bobol ifanc heddiw. Mae cywaith Playhouse yn hawdd ei gyflenwi ac yn ymorol am y lleiaf fyw bosib o gelfi a gwisgoedd, sy'n ei wneud yn gost-effeithiol ac yn ymarferol i'w gyflawni.

*"Fydda i mewn lle i fod yn gefn i'm cydweithwyr gyda'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'r hyfforddiant gwych ges i."*

*"Mae'n wych bod â sgript wedi'i llunio i ddosbarth sy'n addas o ran oedran."*



*"I rai plant, dyma'r tro cynta iddyn nhw fod mewn theatr – maen nhw i gyd yn llawn cyffro ac ar ben eu digon."*

*"Alla i fod pwy ydw i go iawn"*



# I'r Plant...

Cyfle unwaith mewn oes i blant berfformio ar lwyfan o flaen eu ffrindiau, eu teuluoedd a chynulleidfaoedd cyhoeddus, ochr yn ochr ag ysgolion eraill yn y cywaith. Mae dysgu'r plant yn cael ei weddnewid a'u crebwyll ac ymwybyddiaeth o wneud theatr a medrau cymdeithasol yn gwella'n ddirfawr.

Mae gweithdai sy'n hwyl yn eu hysgolion yn cyflwyno'r plant i chwarae creadigol a thechnegau drama cyn mynd i'r theatr, yn aml am y tro cyntaf. Drwy berffomio sgriptiau o safon uchel, addas at eu hoed y mae'r plant yn ei chael yn hawdd ymdeimlo â nhw ac yn eu mwynhau, maen nhw'n datblygu eu medrau actio a llafaredd, yn magu hyder a chyfeiriad meddwl sy'n tyfu o ran bod yn gadarnhaol a chyflawni.

# LLINELL AMSER Y PROSIECT

**Medi 2023 - Chwefror 2024:**

- Ysgolion yn cofrestru ar gyfer y prosiect (dyddiad cau ar gyfer cofrestru: 09 Chwefror 2024)

**Dydd Sadwrn 02 Mawrth 2024: Gweithdy Awduron Digidol**

- Mae partneriaid y Playhouse, dramodwyr ac athrawon o bob rhan o'r DU yn dod at ei gilydd ar gyfer Gweithdy Awduron Digidol, a gynhelir dros Zoom.
- Bydd y gweithdy digidol hwn yn helpu athrawon o ysgolion cynradd ledled y DU i ddarganfod mwy am y ddrama maen nhw wedi'i dewis.
- Bydd athrawon yn cael y cyfle i siarad ag awdur y sgript o'u dewis a dysgu mwy am y ddrama a gweledigaeth yr awdur, yn ogystal ag archwilio ffyrdd newydd o ddatblygu eu sgiliau cyfarwyddo gyda phlant a phobl ifanc.

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2024: Diwrnod Gweithdy Athrawon**

- Bydd yr athrawon o ysgolion Cymru yn dod at ei gilydd ar gyfer Diwrnod Gweithdy Athrawon, lle bydd Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol penodol i helpu eu sgiliau cyfarwyddo a sut i gael y gorau allan o gast mawr o bobl ifanc.
- Cynhelir y Diwrnod Gweithdy Athrawon gan Theatr Iolo a bydd yn bersonol yng Nglan yr Afon, Casnewydd.
- Bydd y diwrnod yn cael ei rannu'n 2 sesiwn, bydd sesiwn y bore yn cael ei harwain gan ymarferydd creadigol Theatr Iolo gyda sesiwn y prynhawn yn cael ei rhedeg gan dîm technegol Glan yr Afon i archwilio ystyriaethau technegol eich dewis ddrama.

**10 & 11 Mehefin 2024: Taith Cefn Llwyfan**

- Bydd athrawon yn cael eu gwahodd i Lan yr Afon ar un o'r dyddiau hyn am daith o amgylch cefn llwyfan. Bydd dyddiadau ac amseroedd yn cael eu trefnu gan Glan yr Afon.

**Mai a Mehefin 2024:**

- Bydd athrawon yn ymarfer eu dewis ddrama yn ystod y cyfnod hwn yn eu hysgol.
- Bydd ymarferydd Theatr Iolo yn ymweld â'r ysgol am un ai un diwrnod llawn neu ddwy sesiwn hanner diwrnod i roi cyngor ac arweiniad pwrpasol ar sut i gyfeirio eu perfformiad. (union ddyddiadau i'w cytuno rhwng yr ymarferwr a'r ysgol)

**8 a 9 Gorffennaf 2024 : Diwrnod Perfformio**

- Un o'r 2 ddiwrnod hyn fydd eich diwrnod perfformio, dyma pryd y bydd eich dosbarth yn perfformio eu drama i deulu a ffrindiau yng Nglan yr Afon, Casnewydd.
- Bydd amserau perfformiad yn cael eu trefnu gan Theatr Iolo a Glan yr Afon.

# FAINT MAE PLAYHOUSE YN EI GOSTIO?

£350

Gweithdy digidol i'r athro arweiniol ddod ynghyd â'r lleoliadau, dramodwyr ac ysgolion sy'n cymryd rhan o bob rhan o'r DU

Bydd yr athro arweiniol yn cymryd rhan mewn gweithdy diwrnod llawn, wyneb yn wyneb gydag ymarferwr ac athrawon eraill o Gymru i archwilio'r broses o gyfarwyddo drama a darparu syniadau i fynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth. Darperir cinio a lluniaeth.

Diwrnod llawn neu ddau ymweliad hanner diwrnod â'ch ysgol gan ymarferwr Theatr Iolo am gefnogaeth un-i-un i'ch helpu i gael y gorau o'ch dosbarth a'ch dewis chwarae.

Ymweliad hanner diwrnod gan aelod o dîm Theatr Iolo yn dilyn y gweithdy lle cynigir cyngor ac arweiniad i chi.
Mynediad diderfyn i dîm Theatr Iolo wrth ymarfer y cynhyrchiad am gymorth a chyngor

Taith gefn llwyfan o amgylch Glan yr Afon ar gyfer eich dosbarth cyfan.

Ffotograffau proffesiynol a recordiadau fideo.





# PLAY HOUSE

## SUT ALLA I GYMRYD RHAN?

Os hoffech chi fod yn rhan o Playhouse
cysylltwch â:

**Aled Rees**
**Gweinyddwr Artistig**
aled@theatriolo.com
029 2061 3782



Theatr Iolo

**theatriolo.com**